

Ystyriaeth pellach i Ddeiseb Mynyddoedd Pawb (P-04-632) 6ed o Hydref, 2015

Sylwadau *Mynyddoedd Pawb* yn dilyn yr ohebiaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Deisebu

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Rydym yn falch o gefnogaeth Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'u cydnabyddiaeth fod: "traditional Welsh names are often the catalyst by which non-Welsh speakers begin to acquire a knowledge of the language, through their growing familiarity with the place-name elements they encounter...".

Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Rydym yn falch fod y Dirprwy Weinidog yn derbyn bod enwau lleoedd Cymraeg yn adnoddau pwysig o ran adnabod a rheoli ein hasedau hanesyddol ac yn ychwanegu at arbenigrwydd diwylliannol Cymru.

Comisiynydd Y Gymraeg

Rydym y cytuno ag argymhellion Comisiynydd Y Gymraeg

- Dylid sefydlu corff neu fwrdd i ymdrin a materion yn ymwneud ag enwau ac i osod meini prawf ar gyfer dibenion cynllunio
- Dylai enwau traddodiadol ar nodweddion tirweddol ac adeiladau o bob math yn ogystal ag adeiladau rhestredig gael eu diogelu.

Credwn y dylai corff neu fwrdd o'r fath fod yn gyfrifol am:

1. Gynnig ffurfiau safonol, gan gydnabod drwy broses ymgynghorol leol, ffurfiau tafodiaethol pan fo'n briodol.
2. Gofnodi enwau a sicrhau eu bod yn gyson mewn dogfennau swyddogol ac ar fapiau. Dylid cydweithio'n agos â'r OS i sicrhau cywirdeb a phriodoldeb yr enwau.
3. Weithredu trefn ymgynghorol ar gyfer newid enwau gan weithio ar raddfa ddalgylchol, h.y. yr awdurdodau cynllunio drwy Gymru. Ceir enghraifft o fewnfudwr yn dymuno cael gwared o enw Cymraeg a phan ofynwyd iddo pam, ei ateb oedd: "I couldn't care two hoots about your Welsh name" a newidiodd yr enw i 'Two Hoots' (cofnodir y newid enw hwn yn nhystiolaeth *Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru* gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fedi yr 2il). Credwn, er mwyn amddiffyn ein treftadaeth rhag y fath ddiffyg parch, mai dim ond drwy gytundeb y gymuned leol a'r awdurdod cynllunio lleol y dylid caniatáu newid enw.

Ymatebion na ddaeth i law

Rydym yn siomedig nad oes ymateb wedi dod hyd yma gan **Croeso Cymru** a **Cyngrhair Twristiaith Cymru**, gofynwn yn garedig i chi gysylltu â nhw unwaith eto.

Rydym yn gofyn unwaith eto am ystyriaeth i amcanion y ddeiseb gan y Gweinidog **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**, y gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros **Addysg**, y gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros **Gyfoeth Naturiol a Chynllunio** a Phrifweinidog Cymru sydd a chyfrifoldeb dros **yr iaith Gymraeg**. Er mwyn gwireddu'r amcanion sydd yn ein deiseb mae cyd-weithio rhwng yr holl adrannau uchod yn angenrheidiol.

Gofynwn i chi hefyd gysylltu â **Cadw**, y corff sydd yn gyfrifol am warchod drwy ddeddfwriaeth dros 30,000 o adeiladau cofrestriedig a thros 500 o ardaloedd

gwarchodaeth bensaernïol arbennig drwy Gymru. Maent yn gwneud gwaith clodwiw yn gwarchod integriti pensaernïol y safleoedd hyn ond mae'n achosi pryder mawr nad ydynt yr un mor awyddus i warchod enwau y cyfryw safleoedd. Labeli yn unig yw'r enwau yng nghyhoeddiadau Cadw heb unrhyw gydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd diwylliannol. Onid yw'r enw yn rhan annatod o gymeriad yr hyn a warchodir ac yn fodd i'w osod yn ei gyswllt hanesyddol a diwylliannol priodol? Dylai enwau traddodiadol ar adeiladau a phob mathau o nodweddion tir gael eu gwarchod. Mae hyn eisoes yn digwydd mewn gwledydd Ewropeaidd eraill er parch i'w diwylliant brodorol ac i gadw'r cymeriad y mae ymwelwyr yn dyheu i'w weld.

Amcanion ein deiseb:

1. Ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni. Gall esbonio ystyron enwau'r ardal i fewnfudwyr di-Gymraeg fod yn gam cyntaf i'w croesawu a chyflwyno cyfoeth ein treftadaeth iddyn nhw, e.e. sesiynau croeso a chymdeithasu ym mhentref Nebo, Dyffryn Nantlle, dan ofal OP Huws. Mae dysgu beth yw ystyr enwau eu tai eu hunain a thai cymdogion a phwy oedd yn arfer byw ynddynt wedi profi'n boblogaidd iawn dros y blynyddoedd. O ganlyniad ymunodd sawl un o'r newydd-ddyfodiaid â dosbarthiadau Cymraeg ac ymhen amser wedi dod yn rhan gyflawn o'r gymuned leol.

Mae angen dathlu cyfoeth ein henwau lleoedd trwy ddod a'n treftadaeth ddiwyllianol yn fyw i bawb. Trwy gyfrwng **y dechnoleg ddiweddaraf** sy'n datblygu'n ddyddiol gellir hefyd cyflwyno cyfoeth y Gymraeg i bawb trwy gyfrwng yr enwau sydd ar ein tirwedd. Gallai hyn fod yn atyniadol ar gyfer siaradwyr y Gymraeg, y sawl sydd â diddordeb yn yr iaith, a dysgwyr yr iaith. Mae trafodaethau a chydweithio'n digwydd ar hyn o bryd rhwng **History Points, Llwybr yr Arfordir, a Chymdeithas Enwau Lleoedd, Cymdeithas Edward Llwyd a Menter Iaith Conwy.** Yn ogystal a threfnu taith, gellid cyflwyno ynganiad cywir yr enwau sydd ar ein tirwedd. Mae cyfle yma hefyd i fynd gam ymhellach a chyflwyno'r **diwylliant Cymraeg cyfoes** i gynulleidfa eang. Awgrymwn gydweithio â menrtrau dysgu Cymraeg poblogaidd fel **Say Something in Welsh.**

2. Cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol drwy rannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwyllianol gydag eraill. Mae angen i gyrff yn y sectorau statudol cyhoeddus a gwirfoddol warchod ac ymfalchio yn ein treftadaeth ddiwyllianol anweladwy yn ogystal â'r gweladwy, byddai hyn yn cyflwyno amrywiaeth ddiddorol ym mhersbectif amgylchedd pobl leol ac ymwelwyr.

3. Ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol a thrwy hynny ddod a buddion addysgol ac economaidd i ardaloedd.

Mae ein henwau lleoedd Cymraeg yn un o'r elfennau mwyaf gweladwy i dwristiaid eu gwerthfawrogi ac i bwysleisio arbenigrwydd Cymru. Gall rhai enwau penodol ddennu twristiaid, e.e. Llanfairpwllgwyngyll..... a Beddgelert, tra y gall eraill ychwanegu yn fawr at brofiad diwylliannol. Er enghraifft, trefnir cyrsiau preswyl llwyddiannus iawn ers rhai blynyddoedd ym **Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ar Y Mabinogion, yn Gymraeg a Saesneg. Canolbwytir ar y 4ydd Cainc: Chwedl Math Fab Mathonwy (stori Llew Llaw Gyffes, Blodeuwedd ayyb).** Rhan hanfodol o'r cwrs yw ymweld â 15 o'r safleoedd yn Nyffryn Nantlle ac ardal Ffestiniog a enwir yn y chwedl. Trefnwyd teithiau maes tebyg fel rhan o gyrsiau **Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn** yn ogystal.

Dylai **addysg** mewn ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i werthfawrogi cyfoeth enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'u treftadaeth, hynny trwy **addysgu** am hanes, daearyddiaeth, chwedloniaeth a defnydd tir hanesyddol ein gwlad.

Mae enwau lleoedd yn gyfrwng hynod ddefnyddiol i roi gwerth ychwanegol i brofiad pobl a phlant o amgylchedd a hanes boed hynny yng nghefn gwlad neu mewn tref trwy weithgareddau awyr agored ac astudiaethau maes i blant ac oedolion. Gall yr elfennau disgrifiadol mewn enwau lleoedd o dirwedd a chynefinoedd gyfoethogi gwerthfawrogiad o nodweddion daearyddol ac ecolegol ar gyfer gwaith maes i ysgolion, gall enwau lleoedd fod yn gyfrwng i gyflwyno cyfoeth treftadaeth drwy eu cysylltiadau hanesyddol a chwedlonol, e.e. rhai enwau mynyddoedd, nentydd, llynnoedd yn sail i hanes neu chwedl. **(tystiolaeth pellach ar gael gan Swyddogion Addysg Gwersyll yr Urdd, Glanllyn a Chanolfan Parc Cenedlaethol Eryri, Plas Tan y Bwlch, Menter Iaith Conwy, Antur Stiniog a Chlwb Ieuencid Blaenau Ffestiniog)**. Mae enwau lleoedd yn gyfrwng i ddarllen y tirlun a chynyddu'r mwynhad o gerdded a chymdeithasu yn yr awyr agored gyda buddion amlwg i iechyd a llesiant pobl, **(tystiolaeth pellach ar gael gan Cymdeithas Edward Llwyd a Clwb Mynydda Cymru)**

Dylai enwau lleoedd ynghyd a'r dreftadaeth a'r hanes sy'n gysylltiedig â nhw, fod yn rhan annatod o gyrsiau astudiaethau'r amgylchedd mewn **addysg** bellach ac **addysg** uwch, ac o gyrsiau gweithgareddau awyr agored megis cyrsiau arwain mynydd sy'n cael eu rhedeg gan gyrff eraill. Yn yr un modd dylid gweithio gyda chanolfannau awyr agored er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o gyfoeth enwau lleoedd traddodiadol brodorol, ac er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru: i hyrwyddo a rheoleiddio'r defnydd o enwau ar fapiau, arwyddion a gwefannau. i ddylanwadu ar gyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r enw cynhenid ar bob achlysur. i annog sefydliadau hamdden ac awyr agored (sy'n cael eu hariannu'n aml o gyllid cyhoeddus) i wneud defnydd o enwau cynhenid ac i gynnwys treftadaeth ddiwylliannol fel rhan o'u pecyn i'r ymwelydd.

Gyda thwf aruthrol dros y ddeng mlynedd diwethaf yn y nifer o Gymry Cymraeg sy'n ennill bywoliaeth yn y sector gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth amgylcheddol **(tystiolaeth ar gael gan Menter Iaith Conwy)** rydym yn fwy ymwybodol nag erioed o bwysigrwydd gwarchod a hyrwyddo eu henwau lleoedd cynhenid er mwyn gwrthsefyll y bygythiad cynyddol gan ddringwyr, caiacwyr, syrffwyr, beicwyr mynydd ayyb sydd yn bathu enwau Saesneg ar ddringfeydd, pyllau a llwybrau gan ddiystyru enwau Cymraeg gwreiddiol sy'n gwanhau arbenigrwydd diwyllianol ein gwlad.

Hoffem nodi bod Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru a Chernyw yn cydnabod bod enwau lleoedd yn elfen gyflawn yng nghwmpas cyllido eu gweithgarwch treftadaeth. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru ddilyn eu hesiampl.

Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol bwysleisio pwysigrwydd hyn oll i'r gweinidigion priodol o fewn Llywodraeth Cymru gan gynnig arweiniad, fel y gallant ddarbwyllio Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ynghyd â chyrff eraill yn y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, i gymryd y camau priodol a phellgyrhaeddol yma i ddiogelu a dathlu'n treftadaeth genedlaethol trwy gyfrwng enwau Cymraeg ein tirwedd.

Edrychwn ymlaen at drafodaethau cadarnhaol.

Atodiad:

Ymateb Parc Cenedlaethol Eryri i sylwadau *Cynghrair Twristiaeth Cymru* wedi cyfweliad ar Radio Wales 12/05/15

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

Datganiad i'r Wasg

Dydd Mercher, 13eg o Fai 2015

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Gwrthwynebu Sylwadau Cynghrair Twristiaeth Cymru.

Mewn cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog heddiw (dydd Mercher, 13eg o Fai, 2015), penderfynodd Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ddatgan fod yr Awdurdod yn anghytuno'n llwyr â barn Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru parthed y defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth groesawu ymwelwyr i Gymru.

Ar ran yr Awdurdod, dywedodd ei Bencampwr Iaith, y Cynghorydd Elwyn Edwards, "Fel Awdurdod, cefnogwn ymgyrch Mynyddoedd Pawb ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod enwau Cymraeg yn cael eu gwarchod a'u hybu.

Mae enwau Cymraeg yn rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol ni - yn adlewyrchu agweddau o'n hanes, ein tirlun, ein bioamrywiaeth, ein hiaith a'n ffordd o fyw. Y rhinweddau hyn sy'n ein gwneud yn arbennig, yn wahanol ac yn atyniadol i ymwelwyr. Difyr felly yw nodi cyhoeddiad Llywodraeth Cymru dooe mai 2014 oedd y flwyddyn orau erioed i Gymru o ran twristiaeth wrth i'r nifer o ymwelwyr o Brydain i Gymru gyrraedd 10 miliwn. Chlywsom ni ddim cwyn gan un o'r ymwelwyr hyn yn dweud fod yr iaith Gymraeg 'yn y ffordd'.

Fel Awdurdod, rydym yma i warchod ein treftadaeth ac mae enwau lleol yn greiddiol i'n treftadaeth. Unwaith y collwn ni'n henwau, fe gollwn ni'n hanes a'n treftadaeth.

Yn y gorffennol, mae Cynghrair Twristiaeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd pwrpasau statudol Parciau Cenedlaethol wrth warchod a gwella harddwch, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol eu hardaloedd. Yr ydym felly yn siomedig â sylwadau dinistriol Cadeirydd y Gynghrair sy'n mynd yn groes i hyn."

Diwedd

Nodyn i Olygyddion

1. Mae "Mynyddoedd Pawb" yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddiogelu a pharchu ein cyfoeth o enwau lleoedd er mwyn:

- ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.
- cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol drwy rannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwyllianol gydag eraill.
- ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol a thrwy hynny ddod a buddion addysgol ac economaidd i ardaloedd.

2. Os am drefnu cyfweliad, neu os am wybodaeth bellach, cysylltwch â Llinos Angharad, Swyddog y Wasg a Digwyddiadau APCE ar 01766 772237 neu 07766 255509.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY**

Press Release

Wednesday, May 13 2015

**Snowdonia National Park Authority:
Objection to Comments made by the Wales Tourism Alliance.**

At a meeting in Plas Tan y Bwlch, Maentwrog today (Wednesday, 13 May 2015), members of Snowdonia National Park Authority decided to announce that it totally disagrees with the opinion of Wales Tourism Alliance's Chairman regarding the use of the Welsh language when welcoming visitors to Wales.

On behalf of the Authority, its Heritage Champion, Councillor Elwyn Edwards said, "As an Authority, we support Mynyddoedd Pawb's campaign and we call on the Welsh Government to ensure that Welsh names are protected and promoted.

Welsh names are part of our cultural heritage – they reflect aspects of our history, our landscape, our biodiversity, our language and our way of life. These are the qualities that make us special, different and attractive to visitors. It is interesting therefore to note the Welsh Government's announcement yesterday that 2014 was a record year for Wales in terms of tourism, as the number of British visitors to Wales reached 10 million. We have not heard any of these visitors complain that the Welsh language was 'in the way'.

As an Authority, we are here to protect our heritage and place names underpin our heritage. Once we lose our names, we lose our history and our heritage.

In the past, the Wales Tourism Alliance has recognized the importance of National Parks' statutory purposes in protecting and enhancing the beauty, wildlife and cultural heritage of their areas. We are therefore disappointed by the destructive comments made by the Alliance's Chairman which contradicts this."

End

Note to Editors

1. Mynyddoedd Pawb (Everyone's Mountains) is keen for the Welsh Government to protect and respect our wealth of place names in order to:

- stimulate respect and interest in the Welsh language and to secure and increase the use of it.
- increase the sense of identity among local communities by sharing the wealth of our cultural heritage with others.
- engage the interest and awareness of visitors of the richness of our local heritage and thereby bring educational and economic benefits to areas.

2. To arrange an interview, or for further information, contact Llinos Angharad, SNPA Press and Events Officer on 01766 772237 or 07766 255509.